# Plannu ar gyfer atgofion arbennig

Coed Caerdydd

## Beth wnaethom ni?

Plannwyd 6 o goed Ceirios "Tai-Haku" lled-aeddfed yn Cwrt Insole, Llandaf.

## Pwy oedd yn rhan o'r gwaith?

Buom yn gweithio gydag Ymddiriedolaeth Cwrt Insole sy'n rheoli'r safle mewn partneriaeth â Chyngor Caerdydd.

## Sut a pham y gwnaethom hynny?

Roeddem am wella'r tir hardd yn Cwrt Insole y mae'r Ymddiriedolaeth wedi bod yn gweithio'n galed i'w wella dros y blynyddoedd. Penderfynwyd ar 6 choeden Geirios "Tai-Haku" i blannu yn yr ardd flaen yn edrych dros y prif dŷ hanesyddol gyda chymorth Cyfeillion Cwrt Insole.

Dewisodd Ymddiriedolaeth Cwrt Insole y lleoliad hwn gan mai dyma lle y tynnir lluniau priodas fel arfer a byddai blodyn mawr yr amrywiaeth hwn o geirios yn gefndir perffaith ar gyfer atgofion wedi'u trysori o ddiwrnod arbennig. Yn y lleoliad hwn hefyd y cynhelir ffair fwyd a digwyddiadau cymunedol eraill ac mae'n llwybr cerdded poblogaidd, ac felly gall llawer o'r cyhoedd fwynhau'r coed hyn dros y blynyddoedd nesaf.

## Beth rydym yn gobeithio ei gyflawni?

Drwy blannu'r coed hyn byddwn yn gwella'r safle hanesyddol sy'n gyswllt â chymaint o hanes diweddar Caerdydd; drwy anterth y diwydiant glo, fel canolfan yn ystod y rhyfel, fel ysbyty, fel cartref, ac yn olaf lle cymunedol i bobl gerdded o gwmpas a'i fwynhau.

Bydd y coed hyn yn creu diddordeb gydol y flwyddyn yn sgil eu rhisgl lliwgar a byddant ar eu gorau yn ystod y gwanwyn gyda blodau mawr hardd.

***"Diolch yn fawr am y coed... Balch dros ben!" – Ymddiriedolaeth Cwrt Insole, Llandaf (06.03.22)***




Neges Facebook gan Gwrt Insole (plannu ceirios 06.03.22)



Plannu coeden geirios Cwrt Insole (06.03.22)